

# Adolygiad Blynyddol a’r Adroddiad ar Effaith 2021 -22

# Ni yw Cerebral Palsy Cymru

Rydym yn elusen gofrestredig ac yn ganolfan ragoriaeth genedlaethol.

Ein cenhadaeth yw gwella ansawdd bywyd bob plentyn sy’n byw gyda pharlys yr ymennydd yng Nghymru.





# Neges y Cadeirydd.

Mae'r flwyddyn wedi bod yn un o newid esblygol i Cerebral Palsy Cymru. Yn flwyddyn o ddychwelyd i'n bywydau cyn-bandemig, wrth barhau i lywio effaith barhaus COVID-19.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, lansiwyd ein hapêl 'Adeiladu Dyfodol Gwell' i godi arian sydd ei angen ar gyfer ail gam datblygu ein canolfan newydd i blant. Rwy'n falch iawn o'r ffaith ein bod, mewn ychydig llai na deuddeg mis, wedi cyrraedd targed ein hapêl o £450,000. Roedd yr ymateb a gawsom yn anhygoel a hoffwn ddiolch yn bersonol i bawb a'n cefnogodd ar ein cenhadaeth i 'Adeiladu Dyfodol Gwell' ar gyfer y plant a'u teuluoedd sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd.

Roedd canolfan blant newydd yn rhan allweddol o'n gweledigaeth ar gyfer datblygu ein helusen i'r dyfodol, ac rwyf wrth fy modd bod y freuddwyd hon wedi dod yn realiti dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'n bendant yn bennod newydd gyffrous yn hanes ein helusen.

Wrth symud ymlaen o'r pandemig, rydym yn wynebu amgylchedd sy'n newid yn barhaus yn wleidyddol ac yn economaidd, ac amser caled i lawer.

Serch hynny, rhaid troi ein sylw at ganolbwyntio ar ein dyfodol fel yr elusen flaenllaw yng Nghymru ar gyfer parlys yr ymennydd. Rydym yn parhau i weld cynnydd yn y galw am ein gwasanaethau, ac rydym am sicrhau ein bod yn gallu cefnogi'r teuluoedd hynny sydd ein hangen, nawr yn fwy nag erioed.

Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yw cynyddu ein capasiti fel bod gennym yr adnoddau i allu gweld mwy o blant o bob oed. Gwyddom fod hon yn dasg uchelgeisiol, ac yn un a fydd yn gofyn am gefnogaeth aruthrol o bob ardal. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i ymdrechu i wneud gwahaniaeth i bob teulu a phlentyn ledled Cymru sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd.


Mae Cerebral Palsy Cymru yn parhau i esblygu, ac wrth i ni edrych i'r dyfodol, gobeithiwn ehangu ein bwrdd ymddiriedolwyr i ymgorffori setiau sgiliau a syniadau newydd a fydd yn helpu i lunio dyfodol y sefydliad gwych hwn, rwyf mor falch o fod yn Gadeirydd arno.

Ar ran y 331 o blant a'u teuluoedd a ddefnyddiodd ein gwasanaeth yn 2021-22, hoffwn i a'm cyd-ymddiriedolwyr ddiolch i bob un ohonoch am sefyll gyda ni trwy gyfnod anodd. Credaf yn gryf, gyda'n gilydd, y gallwn barhau i wneud gwahaniaeth i newid bywydau'r plant a'u teuluoedd yng Nghymru sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd.



*J Frank Holmes*
*Cadeirydd*

# Ein blwyddyn mewn rhifau 2021 - 22



Cyflwynwyd
**1,203**
o sesiynau therapi gan ein tîm arbenigol.

Cyfeiriwyd
**63** o fabanod newydd at ein gwasanaeth ymyrraeth gynnar, 'Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol'.

Derbyniodd
**331** o blant ledled Cymru therapi a chymorth gennym.


Cyflwynwyd
**126** o sesiynau cymorth i deuluoedd gyda'n cydlynydd cymorth i deuluoedd ymroddedig. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cyngor ymarferol a chefnogaeth emosiynol i'r teuluoedd hynny sydd ei angen.

Cynhaliwyd
**9** cylch chwarae Gwell Cychwyn Gyda'n Gilydd yn ein canolfan blant newydd – dros 18 awr o hwyl a chwarae!

Hwyluswyd a chyflwynwyd
**9** cwrs hyfforddi gan ein tîm therapi i weithwyr proffesiynol ledled y DU.

Y swm sydd angen i ni ei godi bob blwyddyn yw
**£1.8Miliwn**

Ar gyfartaledd bob blwyddyn, daw 80% o'n hincwm o roddion, rhoddion mewn Ewyllysiau, ymddiriedolaethau, ein siopau elusen, digwyddiadau codi arian a rhoddion corfforaethol. Daw tua 20% o'r hyn sydd ei angen arnom o ffynonellau statudol.




Caffod
**1,124**
o eitemau o'r stryd fawr a dylunwyr label eu cludo i 5 gwlad wahanol diolch i Thriftify, ein siop elusen ar-lein!

Gwerthwyd
**66,012**
o eitemau yn ein 4 siop elusen, gan helpu i godi swm aruthrol o
**£329,458!**

Cymerodd
**362**
o godwyr arian ran yn ein heriau codi arian Facebook, gan godi cyfanswm o
**£51,132**

Ewch i **www.cerebralpalsycymru.org** neu dilynwch ein cyfryngau cymdeithasol i gael mwy o ddiweddariadau elusennol, newyddion codi arian a straeon gan ein teuluoedd a defnyddwyr gwasanaeth.

/CerebralPalsyCymru @cp_cymru @cp_cymru @cp_cymru

Gallwch hefyd gofrestru i dderbyn ein e-Gylchlythyr misol: **www.cerebralpalsycymru.org/newsletter**



# Neges gan Gyfarwyddwr y Ganolfan

Ers bron i 30 mlynedd, rydym wedi cael ein huno gan ein cenhadaeth – gwella ansawdd bywydau blant Cymru sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd.

Ein nod yw cynnal ein cwrs a'n cenhadaeth er gwaethaf yr ysgytiad o ddigwyddiadau heriol o'n cwmpas. Yn 2021-22 fe wnaethom barhau i wynebu effeithiau'r pandemig, gan brofi'r trawsnewidiad graddol oddi wrth rai o'r cyfyngiadau a'r her o adeiladu modelau therapi newydd yn ôl a allai fod yn hyblyg i amodau.

Yn 2021/22, darparwyd 1,203 o sesiynau therapi arbenigol i 331 o blant a'u teuluoedd ledled Cymru. Amcangyfrifir, ar gyfartaledd, bob pum diwrnod y bydd babi'n cael ei eni yng Nghymru gyda pharlys yr ymennydd. Cyfeiriwyd 63 o fabanod newydd at ein gwasanaeth ymyrraeth gynnar, 'Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol.'

Gwyddom fod y plant ag anableddau a'u teuluoedd wedi'u heffeithio'n anghymesur gan y pandemig a chyfnodau clo, gan wneud ein gwasanaethau'n bwysicach nag erioed.

Mae wedi bod yn arbennig o heriol i deuluoedd y cafodd eu plant eu geni yn ystod y pandemig ac y canfuwyd eu bod mewn perygl o barlys yr ymennydd.

Symudon ni'n canolfan newydd ym mis Ebrill 2021 a roddodd y gofod yr oedd ei angen arnom i ddarparu ein gwasanaethau'n ddiogel. Ar yr un pryd lansiwyd ein hapêl ar gyfer ail gam y gwaith adeiladu i ychwanegu rhai o'r cyfleusterau yr oeddem wedi'u tynnu allan o'r cynllun gwreiddiol oherwydd rhai o'r costau cynyddol. Roeddwn wrth ein bodd i gwblhau o fewn y flwyddyn.

Roedd 24 Medi 2021 yn uchafbwynt, gan groesawu cefnogwyr i'n digwyddiad 'wyneb yn wyneb' cyntaf ers dechrau'r pandemig, ein 'Te Prynhawn Pefriog'.

Mae'n parhau i fod yn amgylchedd heriol ar gyfer codi arian wrth i gyllid grant brys ddod i ben, ac ar yr un pryd nid ydym eto'n gweld rhai o'n ffrydiau incwm blaenorol yn dychwelyd i lefelau cyn Covid.

Yn ystod y pandemig arafodd ein gwaith pwysig ar Gofrestr Cerebal Palsy Cymru gan fod angen i rai o'n partneriaid ganolbwyntio adnoddau ar brosiectau eraill, megis y system wybodaeth ar gyfer y rhaglen frechu. Fodd bynnag, fe wnaethom weithio ar agweddau eraill ar y gofrestr gan fod y gwaith hwn mor bwysig o ran gallu ysgogi newid i bobl yng Nghymru sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd yn y tymor hwy.

Mae gan Cerebral Palsy Cymru dîm gwych, a'u hymroddiad, eu hegni, eu sgil a'u brwdfrydedd nhw sydd wedi ein galluogi i gyflawni'r cyfan sydd gennym eleni. Diolch yn fawr iddyn nhw a hefyd i'r bwrdd o ymddiriedolwyr sy'n ein cefnogi. Ac yn bwysig iawn, diolch i'r timau therapi cymunedol gwych rydyn ni'n gweithio gyda nhw i sicrhau bod y plant a'u teuluoedd yn cael y gwasanaeth gorau posib.

Hoffwn hefyd ddiolch yn bersonol i'n cefnogwyr sydd wedi ein helpu drwy'r cyfnod anodd hwn.

Am ein bod yn deall. Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth.





*Jenny Carroll MA MCSP PGC(HE)*
*Cyfarwyddwr y Ganolfan*



# GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â THEULUOEDD A THIMAU CYMUNEDOL

Rydym wedi sefydlu ein 'normal newydd' eleni, wrth i ni barhau i ddod o hyd i'n ffordd o weithio gyda'r teuluoedd a'u plant ar ôl pandemig COVID-19.

Rydym yn parhau i gynnig apwyntiadau rhithwir ac wyneb yn wyneb i deuluoedd yn dibynnu ar yr hyn y teimlir sydd orau iddynt. I lawer o deuluoedd, mae apwyntiadau rhithwir yn gwneud ein therapi yn fwy hygyrch. Maent wedi caniatáu i ni weithio gyda theuluoedd i ddod o hyd i atebion ymarferol a realistig i roi awgrymiadau therapi ar waith yn eu cartrefi eu hunain. Mae llawer o'n cydweithwyr yn y GIG bellach yn parhau i ymuno â'n sesiynau clinigol yn rhithwir, p'un a yw'r teulu gyda ni ar gyfer apwyntiad wyneb yn wyneb neu'n mynychu sesiwn rithwir.

Mae ein hystafelloedd therapi mawr ac amlbwrpas newydd wedi cael eu defnyddio'n dda ers i ni symud i'n cartref newydd ym mis Ebrill 2021.

Yn ogystal â'r 1,203 o sesiynau therapi a gyflwynwyd gan ein tîm therapi, mae'r gofod newydd wedi ein galluogi i gynnal nifer o weithgareddau grŵp cyffrous yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhain wedi cynnwys dau brosiect a ariannwyd yn garedig gan Apêl Plant mewn Angen y BBC; ESCAPADES!, grŵp o bobl ifanc sy'n archwilio profiadau cyfathrebu a chymdeithasol gyda phwyslais ar gyfleoedd echddygol synhwyraidd a Jungle Explorers, grŵp ar gyfer plant ym mlynyddoedd cynnar yr ysgol gynradd sydd â pharlys yr ymennydd unochrog yn ogystal â grŵp Sgiliau Byw'n Annibynnol ar gyfer y bobl ifanc sydd eisiau datblygu sgiliau a fydd yn arwain at fod yn fwy annibynnol yn eu sgiliau hunanofal, cartref a chymunedol.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i dderbyn nifer cynyddol o atgyfeiriadau ar gyfer babanod a rhieni sy'n ceisio ymyrraeth gynnar ar gyfer eu plant.

Rydym yn ffocysu i raddau helaeth ar ymyrraeth gynnar yn Cerebral Palsy Cymru. Mae ymchwil yn dangos y cynharaf y bydd plentyn sy'n cael neu mewn perygl o gael, parlys yr ymennydd yn derbyn therapi arbenigol, y mwyaf fydd yr effaith ar ganlyniadau'r plentyn yn y dyfodol. Oherwydd hyn, mae'r rhan fwyaf o'n hadnoddau'n mynd tuag at drin babanod o enedigaeth i ddyflwydd oed drwy ein gwasanaeth ymyrryd yn gynnar, Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol. Byddwn wedyn yn gweld plant flwyddyn yn ddiweddarach pan fyddan nhw'n dair oed.

Lle mae adnoddau'n caniatáu, byddwn yn gweld plant hyd at ddeunaw oed.

## DARPARU CYFLEOEDD DYSGU I THERAPYDDION A GWEITHWYR PROFFESIYNOL ERAILL

Fel canolfan ragoriaeth genedlaethol, rydym wedi datblygu ein sgiliau therapi er budd y plant a'u teuluoedd ledled Cymru. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb i rannu ein gwybodaeth a'n sgiliau arbenigol gyda therapyddion cymunedol, fel y bydd hyd yn oed mwy o blant yn elwa o therapi ardderchog. Rhan o'n gweledigaeth felly yw bod yn adnodd hyfforddi ar gyfer therapyddion ledled Cymru a thu hwnt.



Eleni rydym wedi cyflawni hyn drwy gynnal nifer o gyrsiau hyfforddi. Roedd y cyfyngiadau cenedlaethol yn golygu bod yn rhaid i ni addasu ein dulliau addysgu yn gyflym ac o ganlyniad roedd y rhan fwyaf o'n hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n rhithwir, a oedd yn fenter newydd i ni a'r rhai a fynychodd y cyrsiau.

Cyflwynwyd cyfanswm o 9 cwrs i therapyddion galwedigaethol, therapyddion lleferydd ac iaith, ffisiotherapyddion a chynorthwywyr therapi ledled Cymru. Bu'r dull rhithwir newydd hwn yn hynod lwyddiannus, a mynychwyd ein cyrsiau gan lawer mwy o bobl nag y gallem fod wedi'u cynnal yn bersonol yn y gorffennol. Wrth symud ymlaen, rydym yn bwriadu mabwysiadu dull hybrid o gyflwyno cyrsiau hyfforddi ac mae gennym gynlluniau i ddatblygu'r maes hwn o'n gwaith ymhellach yn y flwyddyn i ddod.

www.cerebralpalsycymru.org/for-professionals

## SICRHAU MAI TEULUOEDD SYDD WRTH WRAIDD EIN SEFYDLIAD

Mae cael plentyn sydd â pharlys yr ymennydd yn effeithio ar y teulu cyfan. Rydym am sicrhau bod ein teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u grymuso fel y gallant helpu eu plentyn yn y ffordd orau bosibl.

Yn ystod y flwyddyn, atgyfeiriwyd 63 o fabanod at ein gwasanaeth ymyrryd yn gynnar, Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol. Caiff cyfeiriadau at y gwasanaeth arbenigol hwn eu cydlynu gan ein cydlynydd cymorth i deuluoedd, Glenys Evans, sy'n dod i adnabod pob teulu a phlentyn i ddarganfod pa fath o gymorth y gallai fod ei angen arnynt.

Hwylusodd Glenys 126 o sesiynau cymorth teulu 1:1 yn ystod y flwyddyn, y mwyafrif ohonynt gyda theuluoedd a babanod o dan 2 oed. Gall cael babi sydd wedi cael dechrau anodd mewn bywyd ac nad yw efallai'n datblygu yn ôl y disgwyl effeithio ar y teulu cyfan, felly mae darparu cyngor ymarferol a chymorth emosiynol i'n teuluoedd o'r cychwyn cyntaf, yn rhan allweddol o'n gwasanaeth.



Roeddem yn falch iawn bod ein cylch chwarae Gwell Cychwyn Gyda'n Gilydd, sy'n cael ei arwain gan Glenys a'n therapyddion arbenigol, wedi gallu ailddechrau eleni. Mae'r cylchoedd chwarae misol hyn yn gyfle gwych i'n teuluoedd gwrdd â theuluoedd eraill a babanod sydd mewn sefyllfa debyg iddynt, gan leihau'r ymdeimlad o unigedd y maent yn aml yn ei deimlo.

# EFFAITH 'DECHRAU GWELL, GWELL DYFODOL' – STORI BEN

"Cysylltais â Cerebral Palsy Cymru gyntaf pan oedd Ben tua 6 mis oed. Siaradodd Glenys, eu Cydlynydd Cymorth i Deuluoedd hyfryd, â mi am bron i awr i ddechrau i ddarganfod mwy am Ben a'n teulu. Roeddem yn teimlo ein bod yn cael cefnogaeth yn syth a wnes i ddim oedi pan gynigiodd Glenys y cyfle i ni fynychu rhai sesiynau therapi.

Treuliasom 2 awr gyda dau therapydd yn ystod ein sesiwn cyntaf. Cofiaf am y ffordd garedig ac amyneddgar a oedd gan y tîm therapi, yn ogystal â'r therapi ysgafn ac unigol a awgrymwyd ganddynt ar gyfer Ben. Ar ôl sgwrsio â ni fel teulu a'n gwylio yn rhyngweithio â Ben, roedden nhw'n gallu awgrymu ymarferion a fyddai'n gweithio gyda'r hyn rydyn ni'n ei wneud gartref ar hyn o bryd yn barod.

Dysgodd hyn lawer i ni, gan nad oedd yn teimlo fel 'therapi', dim ond ein dysgu sut i wneud addasiadau bach i'n trefn arferol gyda Ben.

Mae'r sesiynau cylch chwarae yn Cerebral Palsy Cymru hefyd wedi dod yn rhan annatod o fywyd cynnar Ben. Mae wedi bod yn galonogol iawn cyfarfod â rhieni eraill sydd â phlant ifanc wedi'u geni â rhai o'r un heriau â Ben. Mae'n braf gweld babanod a phlant bach sydd wedi bod ar daith debyg, ac mae eu gweld mor hapus a digynnwrf yn gysur enfawr. Gall gofalu am fabi sy'n cael ei eni'n gynnar fel Ben deimlo'n hynod o unig ar adegau, ond yng nghylchoedd chwarae Gwell Cychwyn Gyda'n Gilydd, dydyn ni ddim yn teimlo mor unig."

*Alison Savagaar*
*Mam Ben, sy'n flwydd oed.*

I ddysgu mwy am ein gwasanaeth cymorth i deuluoedd, ewch i:
www.cerebralpalsycymru.org/get-support/our-family-support-service



# CODI ARIAN HANFODOL I WNEUD GWAHANIAETH I BLANT A THEULUOEDD LEDLED CYMRU




Roedd yn ddechrau cyffrous i'r flwyddyn wrth i ni dderbyn yr allweddi i'n canolfan blant newydd! Cawsom sawl 'cam cyntaf' eleni gyda'n mis 'Cacen a The ar gyfer CP' cyntaf ym mis Mai, ein digwyddiad codi arian wyneb yn wyneb cyntaf ar ôl saib o 20 mis, a'n menter gyntaf i fyd Heriau Codi Arian Facebook ar ffurf ein her '3000 Naid Seren ym mis Tachwedd'.

Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd codi arian digidol i fod yn ffynhonnell incwm gynyddol i ni pan gynhaliwyd ail Her Codi Arian Facebook ar ffurf ein her '70K Eich Ffordd Chi' ym mis Mawrth, yn dilyn ymlaen o lwyddiant ein Her Codi Arian Facebook gyntaf.

Am y tro cyntaf, cafodd Mis Ymwybyddiaeth Parlys yr Ymennydd ei gynnal ym mis Mawrth eleni, yn hytrach na mis Hydref, i gyd-fynd ag elusennau parlys yr ymennydd eraill sy'n codi ymwybyddiaeth ledled y byd.

Gwnaethom barhau i fwynhau partneriaethau corfforaethol gwych trwy gydol y flwyddyn, ein cysylltiadau hirsefydlog gyda Mowgli Street Food Caerdydd a Slater & Gordon yn ogystal â bod yn elusen y flwyddyn ar gyfer y Bathdy Brenhinol ac Ysbyty St Joseph, i enwi dim ond rhai.

Tua diwedd y flwyddyn, roedd yn bleser gennym lansio partneriaeth newydd gydag Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru a dathlu eu hymgyrch #BlossomWatch flynyddol ochr yn ochr â'n llysgennad, Lucy Owen. Bydd Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn creu gardd les newydd yn ein canolfan blant yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Roedd llwyddiannau nodedig eraill yn cynnwys codi dros £20,000 drwy Her Nadolig Rhoi Mawr, cael grant tair blynedd gan Sefydliad Elusennol Masonic i helpu i ariannu ein gwasanaeth ymyrryd yn gynnar 'Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol', a derbyn estyniad i'n grant gan Sefydliad Neumark ar gyfer ein gwaith therapi lleferydd ac iaith.

Er bod llai eleni, roeddem yn ddiolchgar am gyfleoedd parhaus i wneud cais am gyllid Covis brys trwy gyllidwyr fel Sefydliad Moondance, Sefydliad Edward Gosling, a Chronfa Gwydnwch y Trydydd Sector, a weinyddir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae ein llwyddiant yn y flwyddyn flaenorol gyda cheisiadau grant brys wedi golygu gofyniad adrodd arbennig o uchel eleni.

Er bod y pandemig wedi datgloi llwybrau newydd o gyfleoedd codi arian i ni, megis codi arian digidol, mae rhai o'n ffrydiau incwm allweddol megis digwyddiadau a chyfleoedd codi arian cymunedol yn dal i ddioddef o effeithiau'r pandemig, ac o ganlyniad rydym yn rhagweld blwyddyn heriol arall o'n blaenau wrth inni weld y cyfleoedd ariannu brys yn dod i ben yn araf.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod mor ddiolchgar i'r staff, gwirfoddolwyr, cefnogwyr, cyllidwyr, a theuluoedd sy'n ymuno â ni i sicrhau ein bod yn gwneud gwahaniaeth i gymaint o fabanod, plant a theuluoedd â phosibl sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd.

# BYD RHYFEDDOL MANWERTHU ELUSENNAU

Mae ein siopau elusen yn chwarae rhan enfawr yn ein gweithgarwch codi arian, a chyn y pandemig, roeddent yn gyson yn cynhyrchu tua thraean o gyfanswm incwm yr elusen.

Ar ôl yr ail gyfnod clo, ar 12 Ebrill 2021, bu modd agor ein siopau unwaith yn ragor yn dilyn llacio rheolau cadw pellter cymdeithasol. Fe wnaethant gynyddu incwm yn araf i fod yn uwch na'r lefelau a welwyd yn ystod dyfnderoedd y pandemig yn 2020/21 ac maent wedi llwyddo i gynhyrchu £408,685 mewn incwm yn ystod y flwyddyn.

"Rwyf mor ddiolchgar i'n holl roddwyr, cwsmeriaid, staff yn y siopau, a gwirfoddolwyr anhygoel sydd i gyd wedi chwarae rhan wrth helpu i sicrhau bod ein siopau yn ailagor yn llwyddiannus ac, wrth gwrs, yn ddiogel ar ôl cyfnod hynod heriol a phryderus yn ystod y cyfnod clo dros y gaeaf." dywedodd George Parry, Uwch Reolwr Manwerthu.

"Mae ein siopau yn rhan fawr iawn o'u cymunedau lleol, ac mae'n braf gallu croesawu ein cwsmeriaid drwy'r drysau unwaith eto."

Yn 2021-22 hefyd lansiwyd ein siop elusen ar-lein newydd ym mis Mai drwy'r platfform, Thriftify, a phenodi Rheolwr E-fasnach. Mae'r fenter newydd wedi'i chefnogi gan grant o Gronfa Gwydnwch y Trydydd Sector, a weinyddir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Gyda'r bwriad o gynyddu ein hincwm, fel y gallwn ddarparu mwy o gymorth i blant a theuluoedd yng Nghymru sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd, rydym yn bwriadu datblygu'r maes incwm hwn yn y dyfodol.





# EIN GWELEDIAETH AM Y DYFODOL

Fel y brif elusen yng Nghymru ar gyfer parlys yr ymennydd, ein gweledigaeth yw darparu dyfodol gwell i bob plentyn yng Nghymru sydd â pharlys yr ymennydd.

Parlys yr ymennydd yw'r anabledd corfforol mwyaf cyffredin mewn plant ledled y byd. Yng Nghymru, tua bob 5 diwrnod, caiff plentyn ei eni gyda pharlys yr ymennydd neu mewn perygl o hynny. Rydym eisiau sicrhau y gallwn fod yno i bob plentyn a theulu sydd ein hangen.

Dros y pum mlynedd nesaf rydym am gynyddu ein capasiti a'n hadnoddau i allu gweld mwy o blant, o bob oed, a'u teuluoedd ym mhob un o'r camau carreg filltir hollbwysig drwy gydol plentyndod. Drwy gefnogi ein gwaith, gallech ein helpu i gefnogi plant ym mhob cam allweddol o'u plentyndod - am y ddwy flynedd gyntaf ar ôl eu geni, drwy gydol eu blynyddoedd fel plentyn bach, dechrau'r ysgol gynradd, pontio o'r babanod i'r adran iau, symud i'r ysgol uwchradd, a pharatoi ar gyfer eu harddegau.

Roedd y ganolfan plant newydd yn rhan o'r cynllun hwn, rydym bellach wedi'i gyflawni. Rydym hefyd yn gweithio i greu Cofrestr Parlys yr Ymennydd i Gymru fel y bydd pob sefydliad sy'n ymwneud â gofalu am blant â pharlys yr ymennydd yn fwy gwybodus i allu cynllunio gwasanaethau, triniaeth, a chynnal ymchwil ar gyfer y dyfodol.


Gwyddom y bydd cyflawni hyn oll yn golygu cynyddu ein hincwm yn sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Ni allwn wneud hyn heb eich cymorth.

Drwy ymuno â theulu Cerebral Palsy Cymru a rhoi rhodd reolaidd o £7 y mis, neu beth bynnag y gallwch ei fforddio, byddwch yn ein helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol gan y byddwn yn gwybod, o ddydd i ddydd, y bydd gennym lif incwm cyson, dibynadwy.

I sefydlu rhodd reolaidd, sganiwch y cod QR gyda chamera eich ffôn neu ewch i: www.cerebralpalsycymru.org/donate-to-help



# DADANSODDIAD O INCWM A GWARIANT



Codi Arian £606,903


Manwerthu £408,685

Byrddau Iechyd £341,419

Cymorth COVID19 £200,640

Arall £74,091

**Cyfanswm Incwm: £1,631,738**



Darpariaeth therapi £1,025,569

Manwerthu £280,143

Codi Arian £214,553

Arall £215,208

**Cyfanswm y Gwariant: £1,735,473**

Yn ogystal â’r incwm a nodir ar y dudalen gyferbyn, roeddem yn ffodus bod gennym incwm mewn blynyddoedd blaenorol a bennwyd i gwmpasu treuliau yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac felly rydym wedi defnyddio’r cronfeydd wrth gefn perthnasol ar gyfer hyn.

# GWELL DYFODOL I FABANOD SYDD ETO I'W GENI

Mae Rhoddion mewn Ewyllysiau wedi ein helpu dros y blynyddoedd i dyfu a datblygu, gan ein bod yn gallu defnyddio'r arian lle mae'r angen mwyaf.

Ar gyfartaledd, bob blwyddyn, mae rhoddion mewn Ewyllysiau yn ariannu 63 o fabanod i gael asesiad cynnar hanfodol a sesiwn therapi arbenigol os oes ganddynt barlys yr ymennydd neu os ydynt mewn perygl mawr o gael parlys yr ymennydd.

Mae nifer y babanod a'u teuluoedd sydd angen ein gwasanaeth yn cynyddu bob blwyddyn. Gall rhodd yn eich Ewyllys fod yn swm bach o arian neu hyd yn oed 1% o'ch ystâd fel bod y rhai sy'n agos atoch yn dal i etifeddu 99%.

Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen eich cymorth arnom, i sicrhau y gallwn fod yno yn y dyfodol i fabanod sydd heb eu geni eto.

Os yw ein helusen wedi bod yn bwysig yn eich bywyd mewn unrhyw ffordd, neu os ydych wedi gweld yr effaith y mae ein gwasanaeth yn ei chael ar aelodau o'ch teulu, ffrindiau, neu gymdogion, a fyddech cystal ag ystyried gwneud rhodd yn eich Ewyllys i Cerebral Palsy Cymru.

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am adael rhodd yn eich Ewyllys (yn gyfrinachol a heb unrhyw rwymedigaeth) ffoniwch **Emma Brooks**, Rheolwr Codi Arian Ymddiriedolaethau a Chymynroddion, ar **02920 522600** neu drwy e-bost **emmab@cerebralpalsycymru.org**

**Gall gadael rhodd yn eich Ewyllys ein helpu:**

- **Cael effaith sylweddol ar ganlyniadau babi yn y dyfodol**
- **Darparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol o'r cychwyn cyntaf i rieni a gofalwyr**
- **Datblygu ein cyrsiau hyfforddi i rannu ein gwybodaeth a sgiliau arbenigol gyda therapyddion cymunedol, fel y bydd hyd yn oed mwy o blant yn elwa o therapi ardderchog.**



# EIN HAPÊL ADEILADU DYFODOL GWELL

Lansiwyd ein 'Apêl Adeilad Adeiladu Dyfodol Gwell' ym mis Mai 2021 i'n helpu i godi arian i gwblhau ail gam y gwaith adnewyddu sydd ei angen yn ein canolfan blant newydd.

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi ein bod, diolch i haelioni ein cefnogwyr, wedi llwyddo i godi'r £450,000 sydd ei angen i gwblhau'r ail gam adnewyddu!

Mae nodweddion allweddol y datblygiad newydd hwn yn cynnwys lifft, waliau pared yn ein hystafelloedd therapi, teclynnau codi ac ailddatblygu ein cwrt blaen yn llwyr gan gynnwys canopi dros ein mannau parcio i deuluoedd.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Sefydliad Moondance a Llywodraeth Cymru am ddeall ein gweledigaeth a buddsoddi yn ein dyfodol. Hoffem hefyd ddiolch i Sefydliad Bradbury, Hong Kong a Sefydliad Garfield Weston am eu rhoddion hael a aeth â ni dros y llinell derfyn.









## Hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd ein 'Hapêl Adeilad Adeiladu Dyfodol Gwell.'

Llywodraeth Cymru Welsh Government

The Moondance Foundation

The Bradbury Foundation, Hong Kong

Garfield Weston Foundation

Slater Gordon Lawyers

Circle.

HUGH JAMES Understanding law, understanding you

St Joseph's Hospital

Cronfa Gymunedol Community Fund

The Screwfix Foundation

B&Q Foundation Improving homes to change lives

Western Power Distribution Serving the Midlands, South West and Wales

Hedigan Construction Ltd

adroit Financial Planning

Hoffem hefyd ddiolch i bawb a gyfrannodd yn garedig ar-lein a thrwy ein hapêl cylchlythyr Gwanwyn / Haf 2021.

# Am ein bod yn deall.

# Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth.

**Cerebral Palsy Cymru**
1 Y Cwrt
73 Tŷ Glas Avenue
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DX

02920 522600
info@cerebralpalsycymru.org

Rhif Elusen: : 1010183
Rhif Cwmni Cyfyngedig: 02691690

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

**Ymddiriedolwyr**
Frank Holmes
Christine Barber
Caroline Cooksley
Martin Gush
Stephen Jones
Paul Lubas
Marie Wood

**Archwilwyr**
Clifton House Partnership,
Clifton House, Four Elms Rd, Caerdydd, CF24 1LE

**Bancwyr**
Banc Barclays plc, Heol Dewi Sant, Caerdydd, CF10 2DP